Owain yr Ysgyfarnog Dewr

Dewrder / Gweld Cyfle

Bob dydd byddai Owain Ysgyfarnog yn byw mewn ofn. 'Roedd o ofn popeth. 'Roedd o ofn y glaw oedd yn disgyn ar y dail. 'Roedd o ofn yr eira oedd yn syrthio ar y llawr. 'Roedd o ofn, hyd yn oed, y gwynt oedd yn chwythu drwy'r goedwig. Byddai'r ysgyfarnogod eraill i gyd yn gwneud sbort am ei ben.
"Gwyliwch," medda nhw efo'i gilydd, "mae Owain yr Ysgyfarnog Ofnus yn dod." Yna fe fydden nhw i gyd yn dechrau chwerthin.
"Be sy'n bod Owain Ofnus?" gofynnodd un o'r ysgyfarnogod eraill. "Pam wyt ti ofn popeth?"
Dechreuodd Owain grio. Doedd ganddo ddim help ei fod yn ofnus.
"Paid â chrio Owain," meddai'i ffrind wrtho. "'Rwyf am i ti fod yn Owain Ddewr o hyn ymlaen."
"Iawn" meddai Owain, "felly rydw i am fod. Dydw i ddim ofn dim yn y byd. Dydw i ddim ofn y glaw na'r eira na'r gwynt. Dydw i ddim ofn y llwynog coch. Dydw i ddim ofn yr un anifail yn y byd i gyd."
Oedd, 'roedd Owain yn teimlo'n ddewr iawn, iawn.
Pan oedd Owain wrthi'n canmol ei hun fel hyn pwy ddaeth dros y bryn ond y llwynog coch. Rhedodd pob un o'r ysgyfarnogod nerth eu traed. Arhosodd Owain yn llonydd. Dechreuodd y llwynog lyfu ei geg â'i dafod hir.
"O mi ydw i ofn am fy mywyd," meddai Owain. "Rydw i ofn yn ofnadwy. Rydw i ofn y glaw, yr eira a'r gwynt. Rydw i ofn y llwynog coch a phob anifail arall yn y byd."
'Roedd o'n crynu o'i ben i'w gynffon bwt. Neidiodd yn ei ddychryn i'r awyr a syrthiodd ar gefn y llwynog coch. Rhoddodd un naid arall i'r awyr a dechreuodd redeg am ei fywyd. 'Roedd y llwynog coch yntau wedi dychryn yn arw. Doedd o ddim yn gwybod beth oedd wedi neidio ar ei gefn. Rhedodd Owain nerth ei draed. 'Roedd o'n mynd yn

gyflymach na'r gwynt a'r glaw. Teimlai fod y llwynog coch wrth ei sodlau. 'Roedd o'n clywed dannedd y llwynog yn crensian wrth ei gynffon. Ymlaen yr aeth yn gynt ac yn gynt. Yn gynt na'r gwynt, yn gynt na'r glaw. Gwelodd lwyn o ddrain ym môn y clawdd. Rhedodd i ganol y brigau a'r dail i guddio. Curai ei galon yn gyflymach ac yn gyflymach.

Ond ble 'roedd y llwynog coch.

Wel, 'roedd y llwynog coch yn rhedeg i'r cyfeiriad arall. Pan neidiodd yr ysgyfarnog ar ei gefn credai fod yr heliwr wedi'i ddal. Tra 'roedd yr ysgyfarnog yn rhedeg gan gredu fod y llwynog ar ei ôl roedd y llwynog yn rhedeg i'r cyfeiriad arall gan gredu fod yr heliwr ar ei ôl.

Bu'r llwynog yn rhedeg am amser maith. 'Roedd wedi rhedeg cryn bellter o'r cae lle 'roedd yr ysgyfarnogod yn byw. Roedden nhw i gyd wedi gweld beth oedd wedi digwydd. Pan ddaeth Owain ato'i hun cerddodd yn ôl yn hamddenol at ei ffrindiau. Roedden nhw i gyd yn disgwyl amdano.

"Edrychwch pwy sy'n dod" medden nhw efo'i gilydd. "Nid Owain Ofnus ydi hwn ond Owain Ddewr. Welsoch chi o'n dychryn y llwynog coch a'i ymlid i ffwrdd?"

"Mae'n rhaid i mi ddiolch i chi gyd," meddai Owain, "chi wnaeth fy helpu i fod yn ysgyfarnog dewr. I chi mae'r diolch am fy helpu. Y fi ydi'r ysgyfarnog derwaf yn y byd i gyd a chwithau ydi'r ysgyfarnogod ofnus. Pob un ohonch chi."

Doedd dim taw ar Owain ar ôl y diwrnod hwnnw. Cerddai o gwmpas gan ddweud wrth yr anifeiliaid eraill i gyd mai fo oedd Owain yr Ysgyfarnog Dewr.

Helpa fi, O Dduw, i fod yn ddewr pan fo angen bod yn ddewr. Amen.

✦ Ydych chi'n credu bod ffrindiau Owain wedi bod yn ffrindiau da iddo?

✦ Sut un ydych chi? Ydych chi'n ddewr neu ydych chi ofn bob dim?